# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Ionawr 2016**

**Amser: 09.33 - 11.16**

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3355

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>John Griffiths AC<br>Altaf Hussain AC<br>Elin Jones AC<br>Darren Millar AC<br>Lynne Neagle AC<br>Gwyn R Price AC<br>Lindsay Whittle AC<br>Kirsty Williams AC |
| Tystion: | Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Amy Clifton (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Sesiwn graffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: paratoi at sesiwn dystiolaeth lafar

1.1 Trafododd y Pwyllgor ei ffordd o ymdrin â'r sesiwn graffu gyda'r Comisiynydd.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 3 Sesiwn graffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: dilyniant i ymchwiliad y Pwyllgor i ofal preswyl i bobl hŷn ac adolygiad y Comisiynydd o gartrefi gofal

3.1 Bu'r Comisiynydd yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- amserlen yn amlinellu pryd y mae'n disgwyl gallu darparu tystiolaeth o ganlyniadau sy'n deillio o'r 'anghenion gweithredu' yn ei hadolygiad o Gartrefi Gofal;
- rhestr o gamau gweithredu a gwaith dilynol ym maes gofal preswyl y mae'n bwriadu eu cadarnhau maes o law.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Sesiwn graffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law, a chytunodd i ysgrifennu at y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru i amlinellu ei farn.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi): Trafod yr ymdriniaeth ohono

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei ffordd o ymdrin â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi) a chytunwyd ar y ffordd honno.